



**POLISI PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB**

**YSGOL LLANDYGAU**

## hyrwyddo Presenoldeb a Phrydlondeb Disgyblion

### Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Ystadegau presenoldeb
- 3.0 Y fframwaith cyfreithiol
- 4.0 Cofrestru a dadgofrestru
- 5.0 Gwyliau teulu yn ystod y tymor ysgol
- 6.0 Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg
- 7.0 Polisi erlyn rhieni
- 8.0 Grwpiau penodol o ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol
- 9.0 Datblygu polisi ysgol gyfan
- 10.0 Arferion da
- 11.0 Dogfennau cefndirol

## **Cyfwyniad**

1.1 Mae pedwar amcan i'r ddogfen hon sef: -

- gosod nod ac amcanion yr Awdurdod mewn perthynas â phresenoldeb a sicrhau y rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r maes gan ysgolion Gwynedd.
- amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi ysgolion, disgyblion a theuluoedd i wella presenoldeb disgyblion.
- cynnig arweiniad ymarferol i ysgolion o safbwynt agweddau cyfreithiol.
- lledaenu ymarfer dda.

1.2 Mae cynhwysiad cymdeithasol yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad gyda'r disgwyliadau diweddaraf i'w gweld yn Adran 3 o Gylchlythyr 47/2006 "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion". Gosodir cryn bwyslais gan y Llywodraeth ar leihau absenoldebau ac er i lefelau absenoldeb Gwynedd gymharu'n ffafriol a gweddill Awdurdodau Cymru teimlir na all yr Awdurdod fod yn or-fodlonus ynglŷn â'r sefyllfa.

***☞ Dylid darllen y ddogfen hon yn gyfochrog a'r arweiniad a geir yng Nghylchlythyr 46/2007.***

1.3 Mae cynhwysiad, sy'n cynnwys ymateb i batrymau anfoddhaol o absenoldeb, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Addysg Sengl yr Awdurdod Addysg a gosodir targedau mewn perthynas â'r maes oddi mewn i Flaenoriaeth 4 y Cynllun.

1.4 Yn bwysicach bron, rhoddir pwyslais ar bresenoldeb rheolaidd er mwyn sicrhau fod y disgybl yn derbyn addysg briodol ac yn cael y budd mwyaf o'r cyfleoedd addysgol a gynigir.

## **2.0 Ystadegau**

***☞ Cyfrifoldeb yr ysgol, a'r ysgol yn unig, yw awdurdodi a chategoreiddio absenoldebau. Os rhoddwyd cymeradwyaeth ymlaen llaw neu os dderbyniwyd esboniad boddhaol gan y rhiant, diffinnir yr absenoldeb yn un awdurdodedig. Fel arall, absenoldeb anawdurdodedig ydyw.***

- 2.2 Yn ogystal â'r disgyblion a gofrestrir yn absennol o'r ysgol, dengys astudiaethau cenedlaethol o feddiant Ken Reid, fod gwir absenoldeb o ysgolion yn llawer uwch h.y. mewn sampl o 35,000, roedd 30% o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn cyfaddef triwantu o leiaf unwaith yn ystod yr hanner tymor blaenorol a 10% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn cyfaddef triwantu unwaith yr wythnos. Yn amlach na pheidio nid yw absenoldeb o'r math yma yn cael ei ddarganfod na'i gofnodi yn swyddogol - Reid, K., Tackling Truancy in Schools (2000).
- 2.3 Perfformiad academaidd - "Mae pob sesiwn a phob gwers yn cyfri". O safbwynt perfformiad academaidd y disgyblion rheiny sy'n absennol, mae ymchwil yn profi fod cydberthynas clos rhwng presenoldeb gwael a chanlyniadau academaidd. Adlewyrchir hyn yn yr adroddiad *"The Correlation between Attendance and Attainment In Secondary and Primary Schools"* a gyhoeddwyd gan Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth yn 2006.
- 2.4 Mae Uned Cynhwysiad Cymdeithasol y Llywodraeth yn parhau i bryderu ynglŷn â'r cyswllt rhwng absenoldeb disgyblion a throseddu. Cyhoeddwyd fod 5% o holl droseddau Llundain yn cael eu cyflawni gan blant yn ystod oriau ysgol.
- 2.5 Wrth gynnal Arolygiadau, mae ESTYN yn ystyried presenoldeb is na 90% yn fater o bryder.
- 2.6 Yn ei fframwaith targedu cynhaliaeth, mae'r Awdurdod Addysg yn categoreiddio ysgolion fel a ganlyn o safbwynt presenoldeb:

	Absenoldebau anawdurdodedig		Absenoldebau awdurdodedig		Cynnal Presenoldeb
	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd	
Ysgol effeithiol	>0.0% -<0.2%	>0.0% - <0.4%	>0.0% -<6%	>0.0% - <8%	System ataliol dda yn cynnwys trefn fewnol effeithiol a strategaeth bendant i ymateb i absenoldeb rheolaidd.
Ysgol sydd angen ei herio	>0.2% - <0.4%	>0.4% - <0.8%	>6% - <8%.	>8% -<10%	Rhai diffygion ar y system ataliol a/neu'r strategaeth ymateb angen sylw.
Ysgol sydd angen cymorth i roi sylw i agweddau penodol	>0.4% - <0.6%	>0.9% - <1.2%	>8%- <10%	>10% -<12%	System ataliol a/neu'r strategaeth ymateb yn fypwyol neu'n ddiffygiol am reswm penodol.

Ysgol sydd angen cefnogaeth a chynhaliaeth ddwys	> 0.6%	> 1.2%	> 10%	> 12%	System ataliol ar strategaeth ymateb angen sylw dybryd.
--	--------	--------	-------	-------	---

*☞ Mae tystiolaeth yn dangos y gall cyfraddau absenoldeb ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd tebyg amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn brawf bod yr ysgolion rheini sy'n ystyried absenoldeb yn flaenoriaeth yn dylanwadu'n arw ar batrymau presenoldeb, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd.*

### **3.0 Y Fframwaith Cyfreithiol**

- 3.1 **Dyletswydd rhieni:** Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, Adran 4 Cylchlythyr 47/2006 – “Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion” ac arweiniad (12/2007) Llywodraeth Y Cynulliad “Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant.
- 3.2 **Cofrestrau derbyniadau a phresenoldeb:** Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 ac Atodiad 4.i “Codau ac arferion cofrestru” Cylchlythyr 47/2006 - Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.
- 3.3 **Darparu data ynglŷn â phresenoldeb i'r Awdurdod Addysg / Llywodraeth y Cynulliad:** Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion)(Cymru) 2004
- 3.4 **Gosod targedau (Ysgolion):** Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod)(Cymru)(Diwygio) 2006 ac Adran 53 Deddf Addysg 2002.
- 3.5 **Gorchymyn Mynychu Ysgol:** Adran 437 Deddf Addysg 1996 ac Adran 4 Cylchlythyr 47/2006.
- 3.6 **Erllyn Rhieni:** Adran 444 Deddf Addysg 1996 ac adran 4 Cylchlythyr 47/2006.
- 3.7 **Gorchymyn Magu Plant:** Adran 8 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.
- 3.8 **Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysgol:** Adran 36 Deddf Plant 1998 ac Adran 4 Cylchlythyr 47/2006.
- 3.9 **Hawliau'r Heddlu i ddychwelyd triwantiad i'r ysgol:** Adran 16, Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998

### 3.10 Gosod Targedau

- Targedau Cenedlaethol: Ym Medi 2001 cyhoeddwyd “Y Wlad Sy’n Dysgu”. Fel rhan o’r ddogfen hon gosodwyd nod i ostwng absenoldebau yn sector Uwchradd yng Nghymru i 8% erbyn 2004 ac i 7% erbyn 2007. Yn anffodus ni lwyddwyd i wireddu’r nod hwn. Fodd bynnag mae’r gofyn sydd ar Awdurdodau Lleol i osod targedau yn parhau.

## 4.0 Cofrestru a dadgofrestru

4.1 Darperir canllawiau manwl yn Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 ac Atodiad 4.i “Codau ac arferion cofrestru” Cylchlythyr 47/2006 - Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

***⌘ Argymhellir fod ysgolion yn mabwysiadu’r canllawiau uchod.***

4.2 Erbyn hyn mae systemau cofnodi presenoldeb cyfrifiadurol “SIMS.net” ar gael i bob un o ysgolion y Sir.

4.3 O safbwynt dadgofrestru disgyblion o oedran gorfodol ysgol, caniateir dileu enw disgybl o’r gofrestr derbyniadau dan yr amgylchiadau canlynol: -

- Pan fo gorchymyn mynychu ysgol sy’n enwi’r ysgol wedi ei newid neu ei ddiddymu.
- Pan fo’r disgybl wedi ei gofrestru mewn ysgol arall.
- Pan fo’r disgybl wedi peidio mynychu a’r rhieni wedi bodloni’r Awdurdod Addysg bod y trefniadau a wneir ganddynt yn briodol.
- Pan fo’r disgybl wedi symud cartref ac y byddai parhau i fynychu’r ysgol dan sylw yn afresymol.
- Pan fo’r disgybl heb ddychwelyd i’r ysgol o fewn 10 diwrnod wedi derbyn caniatâd i fod yn absennol i bwrpas gwyliau teulu.

- Pan fo Swyddog Meddygol Ysgolion wedi cadarnhau fod iechyd y disgybl yn golygu ei fod yn annhebygol o allu cael budd o fynychu cyn cyrraedd oedran ymadael ar ysgol. .
- Yn dilyn methiant rhesymol i ddarganfod y disgybl wedi iddo fod yn absennol am gyfnod di-dor o ddim llai na 4 wythnos.
- Fan fo'r disgybl wedi marw.
- Pan fo'r disgybl wedi mynd tu draw i'r oed gorfodol ysgol ac yn bwriadu peidio mynychu'r ysgol.
  - Pan fo'r disgybl wedi ei wahardd yn barhaol a phrosesau apêl wedi eu dihysbyddu.
- Pan fo disgybl a dderbyniodd addysg feithrin heb drosglwyddo i ddsbarth derbyn.

## **5.0 Gwyliau teulu yn ystod y tymor ysgol**

- 5.1 Rhydd Rheoliad 8 o'r Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) ddisgresiwn i Gyrrff Llywodraethol ganiatáu absenoldeb i bwrpas gwyliau teulu yn ystod y tymor ysgol.
- 5.2 **Nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant o'r ysgol i'r pwrpas hwn a rhaid iddynt ofyn am ganiatâd yn unol â'r trefniadau a fabwysiadwyd gan Gorff Llywodraethol yr ysgol dan sylw.**
- 5.3 Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu absenoldeb am gyfnod o gyfanswm o fwy na 10 diwrnod mewn blwyddyn.
- 5.4 Dylid rhoi ystyriaeth unigol i bob cais oddi mewn i'r meini prawf canlynol:
- Yr amser o'r flwyddyn.
  - Hyd y gwyliau.
  - Pwrpas y gwyliau.
  - Effaith ar ddilyniant addysgol.
  - Amodau'r teulu.
  - Presenoldeb cyffredinol y disgybl.

5.5 Oni bai bo'r rhieni'n cydymffurfio a threfniadau'r Corff Llywodraethol bydd yr absenoldeb yn un anawdurdodedig.

## **6.0 Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg**

6.1 Dirprwyir y cyfrifoldeb a osodir ar y Cyngor i fonitro presenoldeb disgyblion i'r Gwasanaeth Lles Addysg.

6.2 Mae Presenoldeb a phrydlondeb disgyblion y Sir yn un o brif flaenoriaethau'r Gwasanaeth Lles Addysg.

6.3 Yn y mwyafrif o achosion, bydd y Gwasanaeth yn gweithio'n agos a theuluoedd ac ysgolion mewn ymgais i wella patrymau presenoldeb heb orfod troi at y gyfraith.

6.4 Bydd y Swyddog Lles Addysg yn:

- Annog rhieni i ymweld â'r ysgol er mwyn trafod unrhyw bryder
- Cynnig cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â sawl mater sy'n gysylltiedig ag addysg
- Cynghori rhieni ynglŷn â dyletswyddau cyfreithiol
- Ceisio pontio rhwng yr ysgol a'r cartref
- Dehongli gwahanol sefyllfaoedd ac anghenion ar ran ysgolion a'r Awdurdod

6.5 Fel arfer mae presenoldeb afreolaidd y disgybl yn gysylltiedig ag ystod eang o brofiadau allanol yn ogystal â phroblemau teuluol neu addysgol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rôl Y Swyddog Lles yw:

- Adnabod, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, achosion o ddiffyg presenoldeb sydd angen sylw pellach.
- Asesu'r amgylchiadau sydd wedi arwain at fethiant y plentyn i fynychu'n rheolaidd ac adnabod y ffactorau allasai gynorthwyo o safbwynt gwyrddroi'r sefyllfa.



- Cynorthwyo ysgolion wrth ddehongli data presenoldeb trwy ddadansoddi a monitro.
- Dehongli amllder a helaethrwydd absenoldebau ysbeidiol a pharhaol.
- Cynllunio unrhyw ymyrraeth yn ofalus gan sicrhau ymroddiad y disgybl, y teulu a'r ysgol
- Gweithredu cynllun cytunedig ar y cyd a'r ysgol, y disgybl, y teulu ac unrhyw asiant arbenigol arall.
- Gwerthuso a monitro effeithiolrwydd y cynllun gweithredu.
- Cadw cofnod manwl o'r gwaith y cyflawnir.

6.6 Mewn achosion lle na chafwyd llwyddiant trwy deg, bydd y gwasanaeth Lles Addysg yn defnyddio'i bwerau cyfreithiol trwy erlyn rhieni, am fethu a sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plant, gerbron yr Ynadon.

6.7 Lle tybir nad y rhiant sydd ar fai, mae'n bosib i'r Gwasanaeth Lles ddod a'r plentyn gerbron y Llys Teulu gyda golwg ar wneud cais am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysgol.

6.8 Ceir ffurflenni cyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg ar wefan y Gwasanaeth Ysgolion.

## **7.0 Polisi erlyn rhieni**

Mae'r Awdurdod Addysg yn cydnabod ei gyfrifoldeb mewn yn achos o absenoldebau difrifol a phan fo pob ymdrech arall rhesymol wedi methu, i erlyn rhieni trwy'r Llysoedd Ynadon dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 ac yn gweithredu fel a ganlyn:

7.1 Ystyrir erlyn pan fo presenoldeb disgybl wedi syrthio islaw 70% dros gyfnod o ddau dymor.

7.2 O dan rai amgylchiadau, ni ystyrir fod erlyn yn briodol sef:

- Iechyd meddwl y rhieni.
- Y byddai erlyn yn dwysau sefyllfa anodd y mae asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â hi.

- Pan fo salwch wedi ei ardystio gan Feddyg.
- Amgylchiadau penodol rhieni.

***⌘ Ni ellir erlyn y rhiant pan fo'r ysgol wedi awdurdodi absenoldeb yn wreiddiol.***

7.3 Cyn erlyn, rhaid dilyn y camau canlynol:

- Gweithredu ystod eang o strategaethau ataliol ar lefel ysgol a thrwy'r Gwasanaeth Lles Addysg.
- Cynnal Cyfarfod Strategaeth.
- Asesu cyfrifoldeb y rhieni am yr absenoldeb.
- Rhoi rhybudd terfynol i'r rhieni.
- Ystyried priodoldeb gwneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg.

7.4 Gan fod tystiolaeth mai ymhlith rhieni disgyblion iau/cynradd y mae erlyn yn llwyddo orau, dylid canolbwyntio ar yr oedrannau hynny gyda'r nod o osgoi anawsterau ymhellach ymlaen. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr erlynir ym Mlwyddyn 11.

7.5 Gwneir y penderfyniad i erlyn ai peidio gan yr Uwch Swyddog Lles Addysg mewn ymgynghoriad a Chyfreithiwr y Sir.

7.6 Yn arferol, aelod o'r Gwasanaeth Lles fydd yn mynychu'r Llys ar ran yr Awdurdod Addysg ac yn cyflwyno'r achos er o dan rai amgylchiadau cynrychiolir yr Awdurdod gan aelod o Adran Gyfreithiol y Sir.

***⌘ Gweler hefyd Atodiad A - Swyddogaethau Wrth Ymdrin ag Achosion o Absenoldeb***

## **8.0 Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

8.1 Mae tystiolaeth yn dangos bod rhai ffactorau ym mywydau plant a phobl ifanc yn eu rhoi mewn perygl neilltuol o absenoli ac ymddieithrio o'r ysgol ac sydd, yn ei dro, hefyd yn cynyddu eu perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol.

8.2 Dylid ystyried grŵp o ddisgyblion o'r fath mewn perygl ac o'r herwydd eu hystyried yn blant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Rhestrir isod y prif grwpiau a ystyrir gan Lywodraeth y Cynulliad, yng Nghylchlythyr 47/2006, yn ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- Plant teuluoedd sydd mewn amgylchiadau anodd
- Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig
- Disgyblion ag anabledau
- Rhai disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys y rheiny sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol
- Plant sy'n ceisio lloches / ffoaduriaid
- Sipsiwn a theithwyr
- Plant gweithwyr mudol
- Disgyblion mwy galluog a thalentog
- Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol
- Disgyblion ag anghenion meddygol
- Rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog

- Troseddwyr ifanc
- Gofalwyr ifanc
- Disgyblion lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
- Disgyblion sy'n dioddef o ffobia neu sy'n gwrthod mynychu'r ysgol
- Disgyblion sy'n perfformio neu sydd â gwaith

## **9.0. Arferion Da**

- 9.1 Dylai'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol nodi fod presenoldeb disgyblion yn un o brif flaenoriaethau'r ysgol.
- 9.2 Dylai aelod o'r Uwch Dim Rheoli fod yn gyfrifol am reoli a monitro materion sy'n ymwneud a phresenoldeb.
- 9.3 Dylid enwebu aelod o'r Corff Llywodraethol i fod yn gyfrifol am fonitro presenoldeb.
- 9.4 Dylai'r ysgol feddu ar bolisi clir, pendant ac uchelgeisiol o safbwynt presenoldeb.
- 9.5 Dylid gosod targed ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn unigol.
- 9.6 Dylid manteisio ar systemau electroneg o gofrestru disgyblion.
- 9.7 Dylid monitro a chyhoeddi ystadegau presenoldeb o fewn yr ysgol yn rheolaidd.
- 9.8 Trwy gyfrwng graffiau a deunyddiau gweledol eraill, dylid arddangos lefelau presenoldeb yn fisol/tymhorol mewn man sy'n agored i ddisgyblion a staff (dosbarthiadau, cyntedd).
- 9.9 Mewn trafodaethau a'r disgybl neu'i rieni dylid pwysleisio'r cyswllt rhwng absenoldeb a chyrhaeddiad gostyngol.

- 10.00 Dylid ystyried cyflwyno system o ddathlu a gwobrwyo presenoldeb da unigolion neu grwpiau blwyddyn (tystysgrifau 100%) gan roi proffil uchel i unrhyw gyhoeddiad. Yn yr un modd dylid dathlu a gwobrwyo patrwm presenoldeb a wellodd yn ystod y flwyddyn.
- 10.01 Dylid cysylltu â chartref/rhiant pob plentyn sy'n absennol ar fore cyntaf yr absenoldeb.
- 10.02 Dylid sicrhau trefn lle bo'r rhiant yn:
- cysylltu â'r ysgol ar fore cyntaf yr absenoldeb
  - egluro'r absenoldeb ar ddiwedd unrhyw gyfnod o absenoldeb.
- 10.03 Dylid ceisio lleihau'r nifer o ddiwrnodiau a gollir oherwydd gwyliau teulu yn ystod tymor ysgol.
- 10.04 Dylid sefydlu trefn glir o safbwynt cyfeirio materion o lawr y dosbarth i sylw'r tîm rheoli.
- 10.05 Sefydlu trefn effeithiol a chytunedig o safbwynt cyfeirio materion at y Swyddog Lles Addysg.

## **11.0 Dogfennau Cefndirol – Arweiniad Pellach**

- 11.1 “Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion” (47/2006) - Llywodraeth Cynulliad Cymru
- 11.2 “Ensuring Regular School Attendance” – Yr Adran Addysg a Sgiliau
- 11.3 “The Correlation between Attendance and Attainment In Secondary and Primary Schols” - Adran Add Sgiliau'r Llywodraeth (2006).
- 11.4 “Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant – Canllawiau ar gyfer ysgolion” (12/2007)– Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007
- 11.5 “Truancy and School Exclusion” - Yr Uned Dieithrwch Cymdeithasol
- 11.6 “Adolygiad o'r Gwasanaeth Lles Addysg yng Nghymru” – NFER – 07/2007

- 11.7 “Adolygiad O Feddalwedd Electroneg I Fonitro Presenoldeb Yng Nghymru” – NFER – 01/2007
- 11.8 Cynllun Addysg Sengl Gwynedd
- 11.9 “Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a’r System Drosglwyddo Gyffredin” (Cylchlythyr 18/2006) – Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006

Mabwysiadwyd: Gwanwyn 2012  
 Cadeirydd: Dr Einir Young

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Gwanwyn 2016  
 Cadeirydd: Parch John Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris

## Atodiad B.

### Swyddogaethau Wrth Ymdrin ag Achosion o Absenoldeb

Categori o absenoldeb	Lefel yr Absenoldeb (%)	Swyddogaeth Ysgolion	Swyddogaeth y Gwasanaeth Lles Addysg

<b>1. Diwrnod/dyddiau achlysurol heb eglurhad</b>	<10%	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu diwrnod cyntaf â'r rhieni</li> <li>• Cynnal cyfweiliad dychwelyd</li> <li>• Dwyn y mater i sylw Pennaeth Blwyddyn (Uwchradd) / Pennaeth Cynradd</li> <li>• Gohebu'n swyddogol â'r rhieni</li> </ul>	--
<b>2a. Patrwm o absenoldeb rheolaidd heb eglurhad</b>	10-20%	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu diwrnod cyntaf â'r rhieni</li> <li>• Cynnal cyfweiliad dychwelyd</li> <li>• Dwyn y mater i sylw Pennaeth Blwyddyn (Uwchradd) / Pennaeth (Cynradd)</li> <li>• Gohebu'n swyddogol â'r rhieni</li> <li>• Cyfeirio at sylw'r Gwasanaeth Lles Addysg trwy'r ffurflen briodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfweld y disgybl</li> <li>• Cysylltu â'r cartref ac adrodd yn ôl trwy'r ffurflen briodol</li> </ul>
<b>2b. Patrwm o absenoldeb rheolaidd heb eglurhad</b>	20-30%	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu diwrnod cyntaf â'r rhieni</li> <li>• Cynnal cyfweiliad dychwelyd</li> <li>• Dwyn y mater i sylw Pennaeth Blwyddyn (Uwchradd) / Pennaeth (Cynradd)</li> <li>• Gohebu'n swyddogol â'r rhieni</li> <li>• Cyfeirio at sylw'r Gwasanaeth Lles Addysg trwy'r ffurflen briodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu â'r cartref ac adrodd yn ôl trwy'r ffurflen briodol</li> <li>• Mewn achosion eithriadol</li> </ul>

			<p>dylid dilyn y camau a amlinellir isod o safbwynt cynnal Cyfarfod Strategaeth, anfon Rhybudd Terfynol ac erlyn y rhieni.</p>
<p><b>3. Absenoldebau parhaus / tymor hir</b></p>	<p>&gt;30%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu diwrnod cyntaf â'r rhieni</li> <li>• Cynnal cyfweiliad dychwelyd</li> <li>• Dwyn y mater i sylw Pennaeth Blwyddyn (Uwchradd) / Pennaeth (Cynradd)</li> <li>• Gohebu'n swyddogol â'r rhieni</li> <li>• Llunio a gweithredu Rhaglen Cymorth Fugeiliol</li> <li>• Cyfeirio at sylw'r Gwasanaeth Lles Addysg trwy'r ffurflen briodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfweld y disgybl</li> <li>• Cysylltu â'r cartref adrodd yn ôl trwy'r ffurflen briodol</li> <li>• Os nad oes gwelliant yn dilyn dau dymor o weithredu, cynnal Cyfarfod Strategaeth gan wahodd yr ysgol ac Asiantaethau perthnasol a gwneud argymhellion</li> <li>• Cyflwyno argymhellion y Cyfarfod Strategaeth i sylw'r Uwch Swyddog Lles Addysg a fydd yn ystyried priodoldeb erlyn y rhieni neu ymgeisio am</li> </ul>



			<p>Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg. <b><i>Pwysleisir mai dyletswydd statudol yr Awdurdod Addysg yw gwneud hyn.</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Rhoi Rhybudd Terfynol i'r rhieni a monitro ei effaith am bythefnos</li><li>• Erlyn y rhieni neu geisio am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg</li></ul>
--	--	--	--